

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Ynys Sgomer

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 4.0 milltir (6.4 km) 3 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: *Pâl Gwibio 400 i Martin's Haven (*tymhorol, galw a teithio)

CYMERIAD: Taih gerdded ar hyd yr ynys, ymylon clogwyni

CHWILIWCH AM: Pâl, gweilch y penwaig, heligogod (Ebrill i Orffennaf), y frân goesgoch, tylluanod clustiog, gwyllanod, morloi • clychau'r gog ym Mai/Mehefin • grug yn Awst/Medi

MWY O WYBODAETH: NI CHANIATEIR CŴN AR YR YNYS. Arhoswch ar y llwybr troed ar bob adeg. Tâl am deithio ar y cwch a ffi wrth lanio ar yr Ynys. Ffoniwch Dale Sailing (01646 603123) ar gyfer diwrnodau/amserau croesi ayb.

ALLWEDD

- ● ● ● Llwyr Cylch
- P** Maes Parcio yn Martin's Haven
- WC** Toileadau Cyhoeddus

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu



Ynys Sgomer

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 3 awr

Pellter: 4.0 milltir (6.4 km)

Cludiant cyhoeddus: *Pâl Gwibio 400 i Martin's Haven (*tymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SM724094

Mae Sgomer, y mwyaf o ynysoedd Sir Benfro, yn lle cyfareddol i'w archwilio. Daw'r rhan fwyaf o ymwelwyr i'r Warchodfa Natur Genedlaethol i weld ei adar gwyllt a'i blanhigion, sydd ar eu gorau yn ystod y Gwanwyn ac yn gynnar yn yr Haf.

Mae gan Sgomer y gytref fwyaf o adar y môr yn ne Prydain. Ym mis Mai a Mehefin, mae miloedd o weilch y penwaig a heligogod, yn ogystal â gwylanod y graig a gwylanod coesddu, yn magu eu rhai bach ar silffoedd y graig tra bod y pâl yn nythu mewn tyllau yn y pridd ar gopa'r clogwyni.

Ar yr ynys hefyd y mae'r gytref fwyaf o balod Manaw yn y byd. Mae dros 100,000 pâr o balod yn nythu mewn tyllau ar yr ynys. Maen nhw'n treulio'u diwrnod yn y môr ac yna'n dod yn ôl i fwydo'u rhai bach yn y nos yn unig; ar un adeg, diolch i lefain cras yr adar, roedd gan Sgomer enw fel Ynys yr Eneidiau Coll. Chiliwch hefyd am forloi llwyd, llamhidyddion a dolffiniaid.

Mae'r ynys yn fôr o liw yn y Gwanwyn pan fydd clychau'r gog a lluglys yr ychen yn blodeuo mewn mannau cysgodol, tra bod clustog Fair a'r gludlys arfor yn gorchuddio copa'r clogwyni.

Mae gan Sgomer hanes o anheddiad dynol hefyd. Dywedir bod y garreg sefyll unigol a elwir yn Garreg Harold

yn dyddio nôl i'r Oes Efydd. Ond mae'r olion archeolegol pwysicaf yn rhai hwyrach, ac yn dyddio nôl i'r Oes Haearn - rhwng 650 CC a 100 OC.

Bryd hynny, credir bod dros 200 o bobl yn byw ar yr ynys. Chwiliwch am gliwiau i'r gymuned hon o'r Oes Haearn, gan gynnwys olion pedair anheddiad a chaer fechan.

Ar yr ynys hon hefyd ceir rhai o'r systemau cae gorau i oroesi o'r Oes Haearn ym Mhrydain. Yn y Gwanwyn, mae ffiniau 2,000 mlwydd oed y caeau i'w gweld yn glir – y lle gorau i'w gweld nhw yw gerllaw'r gilfach a elwir yn The Wick.

Yn ddiweddarach, mae'n debygol fod yr ynys yn fan aros ar gyfer Llychlynwyr. Credir bod enw'r ynys o darddiad Sgandinafaidd.

Nodwch: nid oes unrhyw gyfleusterau arlwygo ar Sgomer.

Mwy o wybodaeth: NI CHANIATEIR CŴN AR YR YNYS. Arhoswch ar y llwybr troed ar bob adeg. Tâl am deithio ar y cwch a ffi wrth lanio ar yr Ynys. Ffoniwch Dale Sailing (01646 603123) ar gyfer diwrnodau/amserau croesi ayb.